

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>CYFARFOD:</b>	Cyngor Sir
<b>DYDDIAD:</b>	8 Medi 2020
<b>TITLE:</b>	Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	I adrodd ar y drefn ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2020/2021.
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a>

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn ofyniad statudol yn unol ag adrannau 22, 23 a 24 [Deddf Llywodraeth Leol 1972](#).
- 1.2 O ganlyniad i'r [Ddeddf Coronafeirws 2020](#) a'r pandemig presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio'r [Rheoliadau Awdurdod Leol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) (fel y'i diwygiwyd).
- 1.3 Mae Rheoliad 11 of [Reoliadau Awdurdod Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) yn delio ag "Ethol cadeiryddion ac is-gadeiryddion prif gynghorau a chynghorau cymuned yn y cyfarfodydd blynyddol". Mae'r Rheoliad hwn yn diwygio darpariaeth Deddf Llywodraeth leol 1972 o ran ei fod yn darllen fel â ganlyn:

#### **22 Cadeirydd (*rhan berthnasol yn unig*).**

(1) Bydd Cadeirydd prif gyngor yn cael ei ethol yn flynyddol gan y cyngor o blith y cynghorwyr "*but if there is no election of a chair at the annual meeting of the council in 2020, the person holding office as chair immediately before the annual meeting of the council in 2020 may continue to hold office.*"

#### **23 Ethol Cadeirydd (*rhan berthnasol yn unig*)**

(1) Ethol Cadeirydd fydd yr eitem gyntaf o fusnes a drafodir yng nghyfarfod blynyddol prif gyngor "*unless, in relation to the annual meeting held in 2020, the council decides not to hold an election of a chair at that meeting.*"

*“(1A) A principal council that did not elect a chair at its annual meeting held in 2020 may hold an election of a chair at any time before the annual meeting held in 2021 (but not after 30 April 2021)”*

## **2. Cynnig**

- 2.1 O ganlyniad i'r ddarpariaeth yn y Rheoliadau, does dim gofyniad i ethol Cadeirydd / Is-gadeirydd newydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2020.
- 2.2 Mae angen penderfyniad gan y Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, er mwyn cadarnhau na ddylid cynnal etholiad yn 2020.
- 2.3 Lle na gynhelir etholiad, bydd y Cadeirydd presennol yn parhau i ddal y swydd tan y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn 2021 (oni bai y cynhelir etholiad cyn hynny).
- 2.4 Fe argymhellir bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol yn parhau yn eu rolau er mwyn sicrhau cysondeb. Dylid nodi hefyd, ar gyfer y dyfodol agos o leiaf, y bydd rolau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn debygol o fod wedi eu cyfyngu i gynnal cyfarfodydd ac unrhyw faterion cyfansoddiadol, yn hytrach na rolau dinesig/seremonïol gan fod gweithgareddau o'r fath wedi eu hatal am y tro.

## **3. Argymhelliad**

- 3.1 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau nad oes angen cynnal etholiad i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Cyngor ac y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol y Cyngor yn parhau yn eu rolau am gyfnod estynedig tan y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn 2021.